

Cofion a Chyfarchion

- Gyda thristwch y daeth y newydd am farwolaeth Mrs Gwyneth Williams (Llanfair) ddechrau'r wythnos. Estynnwn ein cydymdeimlad cywiraf â'i phriod William, eu plant – Gwenda, Eifion a Gwilym, a gweddill y teulu yn eu profedigaeth. Gweddiwn y byddant oll yn adnabod Duw yn ei holl ddaioni yn cysgodi drostynt yn eu galar a'u hiraeth.
- Mae eraill o'n plith sydd heb fod cystal eu hiechyd, rhai wedi cael llawdriniaeth ac eraill wedi cael anffawd yn ddiweddar. Cyflwynwn hwy oll i ofal Duw gan weddio y bydd pob un ohonynt yn cael adferiad iechyd llwyr a buan.
- Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Glyn Davies (Llansannan) sydd yn datlu penblwydd arbennig heddiw (8fed)!

CDd - NESÁU AT IESU

Mae'r CDd - NESÁU AT IESU a baratowyd gan Adran y Chwiorydd, bellach ar gael, yn rhad ac am ddim, i'r rhai sy'n dymuno ei dderbyn. Mae'n gasgliad o emynau cynulleidfaol, darlenniadau o'r Beibl a gweddiâu ac mae'r cynnwys wedi ei rannu i saith adran. Dymuniad y Chwiorydd yw gweld y CDd yn cael ei ddefnyddio yn addoliad yr eglwys, yn ein cartrefi, mewn ysbytai a chartrefi gofal, ac yn rhan o'n myfyrdod personol. Os hoffech gael copi, gadewch i Mair wybod erbyn Hydref 15fed, os gwelwch yn dda.

I ddod

- **PANED A SGWRS** yn Ffestri Llansannan pnawn dydd Mawrth, Hydref 17eg o 1.30-3.30. Croeso i bawb.
- **SWPER DIOLCHGARWCH** yn Neuadd Llanefydd nos Fercher, Hydref 18fed am 7.00 yng nghwmni Dr Owain Edwards, gyda'r casgliad tuag at Apêl Corwynt Cariad.
- **OEDFA DIOLCHGARWCH CAPEL SOAR, LLANFAIR TALHAIARN** nos Iau Hydref 19eg am 7.00, gyda'r Parch. John Owen, Rhuthun yn pregethu. Croeso cynnes i bawb.
- **OEDFA DIOLCHGARWCH CAPEL Y GROES** am 7.00 nos Wener, Hydref 20fed gyda'r Parch. Ddr Andras Iago yn pregethu. Croeso i bawb.
- **EISTEDDFOD Y PWYNTIAU PRION, PENIEL A SARON** nos Wener, Hydref 20fed am 5.30 yn Ysgol Pant Pastynog.
- **CYNHADLEDD UNDYDD DYDD GWEDDI BYD-EANG Y CHWIORYDD** yng Nghapel Tegid, Y Bala dydd Mercher, Tachwedd 15fed o 10.00 – 3.00.

Darllenid Wythnos Nesaf

Josua 4:1-8 (BCND tud.199 / BCN tud.182)



Llais Bro Aled

Dydd Sul, 8^{fed} Hydref 2017

Darllenid y Dydd

Hebraid 4:12-13

(BCND tud.242 / BCN tud.222)

eglwysibroaled.com

rhaglendorcas.com

llanw.org

hyfforddiantdawn.com


Bore da a chroeso i'r gwasanaethau ar draws Bro Aled heddiw. Gweddiwn y byddwn ni i gyd yn gallu dod at ein gilydd i ymlacio yng nghymdeithas pobl yr Arglwydd. Dewch i ni hefyd roi amser heddiw i weddio dros ein Bro, y bydd enw'r Iesu yn cael ei godi uwchben pob enw arall yn ein pentrefi. Dewch i ni weddio'n hyderus gan wybod fod Duw, sy'n clywed ein gweddi yn un sy'n gallu cyflawni unrhyw beth er mwyn ei enw.

Tybed a ydych chi'n bobl sy'n hoffi gwyllo *Match of the Day*, neu ddarllen adolygiadau o raglenni teledu neu lyfr? Mae'n rhaid i mi gyfaddef, pan dwi'n gwyllo gêm chwaraeon, neu ddarllen llyfr neu wyllo rhaglen, dydw i ddim yn meddwl yn ddwfn iawn am y peth wrth wneud. Wrth wyllo gêm bêl-droed, fe wna i weiddi 'COME ON!!' yn hytrach na dadansoddi pam nad ydy'r tîm yn dod yn eu blaenau! Neu wrth wyllo rhaglen dditectif, fydd gen i ddim syniad pwy gyflawnodd y drosedd ar y diwedd. Ond, wrth wyllo *Match of the Day*, neu ddarllen yr adolygiad, mae'r holl beth yn dod yn glir. Wrth wrando ar eu sylwadau treiddgar, mae'n dod yn gwbl amlwg pam fod un tîm wedi ennill ar draul y llall. Neu wrth ddarllen yr adolygiad, rydw i'n cicio fy hun nad oeddwn i wedi gweld y cliwiau yn y rhaglen dditectif.

Mae ein darllenid ni heddiw yn dangos i ni rym y Beibl, Gair Duw. Yn aml, fe allwn ni fynd trwy fywyd yn meddwl ein bod yn gwneud yn weddol, neu'n byw bywyd da. Mae awdur yr Hebraid yn dangos i ni mai dim ond trwy ddarllen Gair Duw mae'n bosib i ni ddirnad hynny.

Darllenwn yn adnod 12 fod Gair Duw fel cleddyf miniog sy'n treiddio i mewn yn bellach na chnawd nac esgyrn na mêr, yr holl ffordd i'n heneidiau ni. Mae hyn yn ddyfnach nag unrhyw adolygiad. Mae Gair Duw yn treiddio i lawr drwy bob haen o'n person ac yn gweld y pethau dyfnaf yn glir. Mae'n mynd yn ddyfnach na'n geiriau a'n gweithredoedd, yr holl ffordd i'n bwriadau, meddyliau a'n cymeriad.

Ar y lefel ddofn yma, mae Gair Duw yn cael effaith arnom ni ac yn trawssffurfio pwy ydym ni. Mae'n dysgu ni beth sy'n wir a beth sy'n anghywir. Mae'n cysuro'r galon. Mae'n ein hargyhoeddi o bechod ac yn ein cyfeirio at yr Un all ein glanhau o'r pechod yna. Mae Salm 37:31 yn dweud am bobl Dduw: "Cyfraith Duw sy'n rheoli eu ffordd o feddwl, a dyn nhw byth yn lithro". Tybed ydym ni am fod yn bobl fel yma?

DILYNWCH NI: @eglwysibroaled 

Gwion

Cyhoeddiadau

Y Fro

- Sul yma – 8^{fed} ➤ **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Alun Jones, a bydd y Parch. Euros Wyn Jones yn pregethu.
- Mawrth – 10^{fed} ➤ **Cyfarfod Plant Ysgol Pant Pastynog** o 3.00-4.30.
- Mercher – 11^{eg} ➤ **CIC +** (Cyfle ar gyfer pobl ifanc bl. 10+ i dyfu fel Cristnogion) ym Mhreswylfa, Cefn Meiriadog o 4.00-5.30.
- **Torri Syched y merched** am 7.30.
- **Torri Syched y dynion** am 7.30.
- Iau – 12^{fed} ➤ **Cyfarfod Plant Llansannan** o 3.15-4.30.
- Sadwrn – 14^{eg} ➤ **Darlithoedd DAWN Cymru – Grŵp y Gogledd** yn cyfarfod yng Nghaffi Gorwelion, Y Bala am 10.00.
- Sul nesaf – 15^{fed} ➤ **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Gwawr Davies, a bydd Rhodri yn pregethu.

Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma – 8^{fed} ➤ Bydd Rhodri yn arwain gwasanaeth teuluol i'r daith yng Nghefn Meiriadog am 2.00 ac yn llongyfarch Mrs Beti Jones, Mr Robert Henry Roberts a Mrs Mair Williams a dderbyniodd y Fedal Gee ddydd Iau. Bydd cyfle am de a sgwrs wedyn. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.
- Mawrth – 10^{fed} ➤ Bydd cyfle am ginio a sgwrs yn Festri Cefn Meiriadog am 12.15. Croeso cynnes i bawb.
- Sul nesaf – 15^{fed} ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith yn Llanfair am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00.

Llansannan a Nantglyn

- Sul yma – 8^{fed} ➤ Cynhelir Oedfa Diolchgarwch i'r teulu yn Llansannan am 10.00 a bydd paned i ddilyn.
- Ni fydd oedfa yn Nantglyn.
- Mercher – 11^{eg} ➤ Cynhelir Cinio Jangl yn Ysgol Bro Aled am 12.00. Enwau i Eifion Jones, Y Gorlan (870656) **HEDDIW**, os gwelwch yn dda.
- Sul nesaf – 15^{fed} ➤ Bydd Aneurin yn arwain Oedfa Diolchgarwch yr oedolion am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
- Bydd Pwyllgor Cymdeithas y Beibl Llansannan yn cyfarfod yn Ystafell y Blaenoriaid am 7.15.
- Bydd Aneurin yn arwain Oedfa Diolchgarwch Nantglyn am 2.00.

Cyhoeddiadau

Saron a Pheniel

- Sul yma – 8^{fed} ➤ Cynhelir Gwasanaeth Diolchgarwch y Plant a'r Ieuenctid yn Saron am 2.00. Bydd Ysgol Sul ym Mheniel am 10.00.
- Iau – 12^{fed} ➤ Cynhelir Oedfa Diolchgarwch Saron am 7.00 gyda'r Parch. Hugh Pritchard yn pregethu. Croeso cynnes i bawb.
- Sul nesaf – 15^{fed} ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Saron am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 10.00.

Henllan a Groes

- Sul yma – 8^{fed} ➤ Cynhelir Cyfarfod Gweddi yn Groes am 10.00 a bydd Ysgol Sul i'r plant a'r oedolion am 2.00. Bydd Gwasanaeth Thema yn Henllan am 10.30 a chinio cynnil ar ôl y gwasanaeth i godi arian tuag at Apêl Corwynt Cariad.
- Llun – 9^{fed} ➤ Gwasanaethau Diolchgarwch Capel Henllan am 2.15 yng nghwmni plant Ysgol Henllan a'r Parch. Carwyn Siddall. Ef hefyd fydd yn pregethu yng ngwasanaeth yr hwyr am 7.00. Fe wneir casgliad arbennig tuag at Apêl Llifogydd De Asia trwy law Cymorth Cristnogol. Croeso cynnes i bawb.
- Sul nesaf – 15^{fed} ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Groes am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan a Groes am 2.00.

Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma – 8^{fed} ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa deuluol 'Corwynt Cariad' i'r daith yn Llanefydd am 10.00. Yna, bydd rhai o'r aelodau yn mynd yn ystod y prynhawn i'r Hen Ficerdy i gynnal gwasanaeth.
- Sul nesaf – 15^{fed} ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Berain am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd a Chefn Berain am 10.00.

Manylion Cyswilt

Rhodri – 📧 rhodri@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870522 📞 07814 660291
Gwion – 📧 gwion@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 582644 📞 07849 591163
Mair – 📧 mair@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870632 📞 07900 627536
Cyhoeddiadau i'w hanfon i Mair erbyn 9.00 nos Fercher, os gwelwch yn dda.

Eglwysi Bro Aled

Ein nod yw tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau.